ACADEMI GWELLIANT CYMRU

IMPROVEMENT CYMRU ACADEMY

GIG CYMRU NHS WALES

# Academi Gwelliant Cymru Canllaw Pecyn Cymorth



# Cynnwys Eraill

## Cyflwyniad

Mae gwerthoedd craidd GIG Cymru yn rhoi pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd ei wasanaeth er mwyn sicrhau safonau gofal uchel (1) (gweler Canllaw Pecyn Cymorth Cyd-gynhyrchu). Mae pob prosiect gwelliant ansawdd yn gofyn am gyfranogiad gwahanol bobl ym mhob cam i sicrhau llwyddiant y prosiect. Rhanddeiliaid yw unrhyw un yr effeithir arno gan nod a chanlyniad eich prosiect neu sydd â diddordeb ynddynt; gallai hyn fod yn bobl o fewn eich tîm, o fewn neu y tu allan i'ch sefydliad a'ch cleifion, ond mae'n afrealistig cynnwys pawb. Mae'r canllaw pecyn cymorth hwn yn disgrifio sut i adnabod eich rhanddeiliaid allweddol, pryd i'w cynnwys a sicrhau eu cymhelliant a'u hymgysylltiad trwy gydol eich prosiect er mwyn gwella eich canlyniadau. Yn ogystal â chyfranogiad rhanddeiliaid, mae angen ymgysylltiad gweithredol tîm prosiect ar bob prosiect gwelliant i gyflawni'r prosiect, cydweithio yn effeithiol ac ysgogi gwelliant.



## Rhesymeg

Mae cynnwys eraill yn cynyddu'r siawns o weithredu eich prosiect gwelliant yn llwyddiannus. Mae angen i'ch tîm cyfan weithio gyda'i gilydd yn gydlynol o ddechrau eich prosiect er mwyn nodi maes i'w wella, cytuno ar ateb posibl i broblem, gweithredu newid ac i weld a yw newid wedi arwain at welliant, ac os felly, i gynnal y gwelliant hwnnw. Mae cydweithio yn sicrhau bod ystod amrywiol o syniadau'n cael eu hystyried a'u cynrychioli, yn annog perchnogaeth ac ymrwymiad i'r broses a gall hefyd wella cydweithrediad, ymddiriedaeth a chyfathrebu o fewn eich tîm.

## Cefndir

Yn y 1960au trafododd Sefydliad Ymchwil Stanford rhanddeiliaid mewn perthynas â rheolaeth strategol am y tro cyntaf. Yn 1984, daeth damcaniaeth rhanddeiliaid Freeman (2) i’r amlwg. Roedd hon yn cynrychioli newid mewn blaenoriaethau o wneud y mwyaf o'r gwerth/elw i gyfranddalwyr tuag at greu gwerth ar gyfer ystod ehangach o’r partïon dan sylw sydd i gyd yn dylanwadu ar y busnes ac yn cael eu heffeithio ganddo h.y. rhanddeiliaid fel staff, cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth ac ati. Ym maes iechyd, ystyrir bod buddiannau pawb yr effeithir arnynt neu sy'n ymwneud â phenderfyniadau a gwelliannau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn hanfodol ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaus yn y gofal a gwasanaethau rydych chi'n eu darparu.

## Pryd i’w ddefnyddio

Mae'n hanfodol eich bod yn nodi eich tîm prosiect, (a fydd yn cyflawni'r gwelliant), a'r rhanddeiliaid allweddol (a fydd yn rhan o'r gwelliant a/neu’n cael eu heffeithio ganddo), o ddechrau eich prosiect. Dylai cynnwys eraill fod yn broses barhaus, ond camau mwyaf arwyddocaol y prosiect i ymgysylltu ag eraill yw (3):

- **pan fyddwch chi'n dechrau** ymgysylltu â phobl allweddol
- **wrth gwmpasu'r sefyllfa bresennol** er mwyn deall ble rydych chi nawr (gweler Canllaw Pecyn Cymorth Diagram Asgwrn Pysgodyn.
- **wrth fesur/deall eich problem** er mwyn nodi’r achos sylfaenol (gweler canllaw'r pecyn cymorth ar y Teulu o Fesurau).
- **wrth gynllunio'ch newid/gwelliant** ar gyfer cytuno ar gyfrifoldeb a chyfranogiad (gweler canllaw pecyn cymorth ar Model ar gyfer Gwella).
- **yn ystod eich cyfnod peilot** er mwyn gweithredu, profi ac asesu effaith.
- **ar ddiwedd eich prosiect** er mwyn gwerthuso a chyfleu'r canlyniad a chynnal y newid



## Sut i’w ddefnyddio

Rhai cwestiynau defnyddiol i'w gofyn i chi'ch hun: pwy yw eich rhanddeiliaid a'ch tîm prosiect? Sut ydych chi'n eu hadnabod? Pa berthnasoedd sydd angen i chi eu hadeiladu a'u meithrin? Sut a phryd ydych chi'n gwneud hynny? Mae yna rai offer y gellir eu defnyddio a fydd yn cael eu trafod nawr.

**Tîm y prosiect:** Mae tîm y prosiect yn cyflawni'r gwelliant ac yn cydweithio i gyflawni'r nod. Mae cyfranogiad y tîm yn eich galluogi i ystyried gwahanol safbwyntiau eich problem, yn seiliedig ar y wybodaeth, y profiadau a'r swyddi o fewn y tîm. Mae tîm sy'n cefnogi gweledigaeth y prosiect yn fwy tebygol o arwain at welliant llwyddiannus.

Bydd penderfynu ar eich dîm y prosiect yn cael effaith enfawr ar ganlyniad eich prosiect gwelliant felly mae'n bwysig dechrau trwy nodi’n union pwy fydd yn eich tîm prosiect. Fel a rfer, maen nhw'n bobl o fewn eich tîm, ynghyd ag aelodau allweddol o'r sefydliad sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broses rydych chi'n canolbwyntio arni.

## Enghraifft o ddadansoddiad o dîm prosiect

| Grŵp rhanddeiliaid neu unigolyn | Cefnogol i newid<br>-if +if | Rheswm dros wrthsefyll newid | Strategaeth ar gyfer delio â gwrthwynebiad | Rheoli pŵer a buddiannau | Gweithred sydd ei hangen |
|---|---|---|---|---|---|
| Uwch Reolwr | Ydy | Dim gwrthwynebiad | Amh | Rheolwr llinell, gwybodaeth am welliant | Cefnogaeth barhaus. Cymorth gyda gwybodaeth gwella ansawdd |
| Uwch Reolwr | Ydy | Dim gwrthwynebiad | Amh | Dymuno cynyddu ymgysylltiad â dysgwyr i ymuno â'r cwrs | Arweinydd i roi gwybod a chael adborth am gynnydd, y camau nesaf a'r rhai a dderbynnir i'r cwrs Academi yn y dyfodol |
| Arweinydd | Ydy | Dim gwrthwynebiad | Amh | Cefnogi hygyrchedd y rhai a dderbynnir a defnyddwyr gwasanaeth | Cysylltu ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau yn ystod cylch cynllunio-gwneud-astudio-gweithredu (PDSA) |
| Cymorth Gweinyddol | Ydy | Dim gwrthwynebiad | Amh | Mynediad i archebion cwrs gan gymorth gweinyddol | Cefnogi'r gwaith sydd ar y gweill |

**Cefnogaeth Uwch reolwr/Noddwr:** Mae angen noddwr ar bob prosiect gwelliant, sy'n rhoi cefnogaeth lefel uwch er mwyn hwyluso llwyddiant ac sy'n rhanddeiliad allweddol. Mae noddwyr yn bobl sydd â chyfrifoldebau lefel uchel o fewn eich sefydliad ac mae ganddynt y rôl bwysig o sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd ag anghenion y sefydliad ac o gytuno ar ffocws y prosiect o'r cychwyn cyntaf (4). Fel arfer, uwch reolwr yw noddwr prosiect gwelliant, ac maen nhw'n tueddu i fod y cyswllt rhwng perchennog y prosiect gwelliant a'r uwch dîm arwain ond maen nhw hefyd yn annog, cefnogi a galluogi tîm y prosiect.

Ar lefel ymarferol, bydd y noddwr gwelliant ansawdd yn cefnogi o ran sefydlu'r tîm ar ddechrau'r prosiect a bydd yn edrych ar adroddiadau cynnydd gydag arweinydd y prosiect. Maent yn trefnu cyfarfodydd gydag arweinwyr y prosiect ar adegau penodol, e.e. unwaith y mis a gallant fod yn hyrwyddwyr y prosiect gwelliant sy'n annog ymgysylltiad staff. Maent yn wirioneddol gefnogol i arweinydd y prosiect, gan helpu i chwalu unrhyw rwystrau posibl (5) a chreu cymhelliant.

**Pwy yw eich rhanddeiliaid?** Mae rhanddeiliad yn weithiwr, yn gwsmer neu'n gyflenwr a fydd yn chwarae rôl neu'n cael effaith ar eich prosiect gwelliant. Mae gan rai ddiddordeb neu ddylanwad yn y maes lle mae eich problem yn gorwedd, mae gan eraill ddylanwad neu ddiddordeb yn eich datrysiad. Gallant fod y tu mewn neu'r tu allan i'ch sefydliad a gallant gael dylanwad cadarnhaol ar eich prosiect yn seiliedig ar eu penderfyniadau neu brofiadau.

Gall eich rhanddeiliaid gynnwys:

- **Cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth**
- **Rheolwyr prosiect**
- **Aelodau tîm y prosiect**
- **Noddwyr y prosiect**
- **Swyddogion gweithredol**
- **Rheolwyr adnoddau**
- **Asiantaethau allanol, er enghraifft Llywodraeth Cymru**
- **Tîm cyfathrebu**
- **Contractwyr**

- **Perchnogion**
- **Defnyddwyr gwasanaeth/cleifion**

**Perthnasoedd â rhanddeiliaid:** Gydag unrhyw brosiect gwelliant, mae perthnasoedd yn chwarae rhan allweddol a gallant benderfynu ar lwyddiant eich prosiect. Bydd gan randdeiliaid allweddol y dylanwad a'r awdurdod mwyaf i gefnogi prosiect a dylanwadu ar lwyddiant. Mae'n bwysig cyfathrebu'n dda â'ch holl randdeiliaid, mae hyn yn cynnwys, dyddiadau cau, amserlenni, cynnig cefnogaeth neu wrando ar bryder. Bydd angen perthynas wahanol â gwahanol randdeiliaid. Gweler y Canllaw Pecyn Cymorth Cyd-gynhyrchu am ragor o wybodaeth am gynnwys eraill mewn newid.


**Adnabod a rheoli eich rhanddeiliaid:** Mae'r matrics rhanddeiliaid isod yn cyfeirio at y 6 C:

- Mae **Comisiynwyr** yn asesu anghenion ac yn blaenoriaethu cynllunio'r prosiect.
- Gall **Cwsmeriaid** fod y rheswm pam rydych chi'n cynnal eich prosiect gwelliant. Nhw yw eich cleifion, eich defnyddwyr gwasanaeth neu gallant hyd yn oed fod yn chi eich hun.
- Mae **Cydweithredwyr** yn unigolion neu'n grwpiau rydych chi'n gweithio gyda nhw i gyflawni eich nod.
- Gall **Cyfranwyr** fod yn unigolion sy'n gysylltiedig â'ch prosiect gwelliant neu'n gweithio y tu allan i'ch adran neu sefydliad ond maent yn fuddiol i'r canlyniad.
- **Sianeli (channels)** yw'r ffyrdd rydych chi'n dewis cyfathrebu â'ch rhanddeiliaid.
- **Sylwebwyr (commentators)** yw'r safbwyntiau am y sefydliad yn seiliedig ar farn y cwsmer.

DS Er mwyn sicrhau gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, mae'n bwysig cael safbwyntiau a chyfranogiad cleifion ar unrhyw welliannau neu newidiadau rydych chi'n eu gwneud. Dylech ofyn am arweiniad gan eich adran lywodraethu leol cyn ymgynghori â chleifion, i sicrhau bod eu cyfrinachedd yn cael ei gynnal ac i gytuno a oes unrhyw ystyriaethau moesegol penodol mewn perthynas â'ch prosiect.

## Matrics rhanddeiliaid

Gellir defnyddio'r fframwaith hwn i fapio a blaenoriaethu eich rhanddeiliaid, mae hyn yn eich helpu i ystyried eu lefel o ddylanwad a diddordeb yn eich prosiect ac mae hefyd yn ddefnyddiol wrth gynllunio a rheoli eich cyfathrebu â nhw:




## Beth nesaf?

Nodwch a blaenoriaethwch eich rhanddeiliaid, yna cyn i chi weithredu unrhyw newidiadau, meddyliwch am sut y gallai'r rhanddeiliaid hyn gefnogi neu gyfyngu ar eich prosiect. Ystyriwch eu hagwedd, eu rheswm dros y persbectif hwn a sut y gallech fynd ati i fynd i'r afael ag unrhyw wrthwynebiad i newid er mwyn sicrhau'r ymgysylltiad a'r cyd-gynhyrchu mwyaf effeithiol. Gall templed dadansoddi rhanddeiliaid eich helpu i wneud hyn; dangosir enghraifft ymarferol isod.

## Enghraifft o ddadansoddiad rhanddeiliaid

| Enw/Swyddogaeth | Cefnogol i newid<br><br>-if +if | Rheswm dros wrthsefyll newid | Strategaeth ar gyfer delio â gwrthwynebiad | Gweithred sydd ei hangen |
|---|---|---|---|---|
| Cofnodion Meddygol / Paratoadau Clinig | -if | Llwyth Gwaith Ychwanegol | 1. Ennyn cefnogaeth y Rheolwr Cofnodion Meddygol<br>2. Hyfforddi staff cofnodion meddygol ynghylch y rheswm dros lwyth gwaith ychwanegol<br>3. Archwiliad o oblygiadau llwyth gwaith ychwanegol o ganlyniad i dreialu proses newydd<br>4. Treialu proses newydd | 1. Cyfarfod â Rheolwr MR<br>2. Sesiynau hyfforddi i'w sefydlu<br>3. Offeryn casglu data i'w ddefnyddio i fesur gofynion amser<br>4. Cytunwyd ar gyfnod treialu |

Cyfeirnod: Academi Gwelliant Cymru: Llyfr Gwaith Gwelliant ar Waith

Gellir dod o hyd i dempled dadansoddi rhanddeiliaid fel hyn ar ddiwedd y pecyn cymorth hwn.

## Awgrymiadau defnyddiol

- Nodwch eich tîm prosiect a'ch rhanddeiliaid yn gynnar
- Sicrhewch bod eich prosiect yn ymgysylltu ag anghenion y rhanddeiliaid ac yn diwallu anghenion y rhanddeiliaid
- Cyfathrebwch beth sy'n digwydd yn eich prosiect gwelliant bob amser er mwyn sicrhau perthnasoedd gwaith da
- Crëwch berchnogaeth ac atebolrwydd ar gyfer y rhanddeiliaid trwy gydol y prosiect er mwyn creu cynaliadwyedd o fewn eich prosiect

## Adnoddau ychwanegol

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am sut y gall arferion gwelliant fod o fudd i'ch gweithle, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi. Ewch i wefan Academi Gwelliant Cymru i gael rhagor o wybodaeth neu anfonwch e-bost atom improvementcymruacademy@wales.nhs.uk i ddarganfod am y cyrsiau gwelliant rydym yn eu cynnig.

## Darllen pellach


1. GIG Cymru. Fframwaith Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad [Rhyngrwyd]. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. 2024. Ar gael o: https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/e-lawlyfr-llywodraethu/byw-gwerthoedd-gwasanaeth-cyhoeddus/fframwaith-gwerthoedd-a-safonau-ymddygiad-ar-gyfer-gig-cymru/

2. Freeman RE. Stakeholder Theory. Cambridge University Press; 1984.

3. NHS England. Engaging, Involving and Understanding Others' Perspectives the Organising for Quality and Value: Delivering Improvement Programme [Internet]. 2019. Ar gael gan: https://www.england.nhs.uk/improvement-hub/wp-content/uploads/sites/44/2018/06/Engaging-Involving-Understanding-Others-Perspectives.pdf

4. Holloway J, Bryde D, Joby R. A practical guide to dealing with difficult stakeholders. Abingdon, Oxon: Routledge; 2016.

5. Langley GJ, Moen RD, Nolan KM, Nolan TW, Norman CL, Provost LP. The Improvement Guide. John Wiley & Sons; 2009.




## Templed dadansoddi rhanddeiliaid

| Enw/Swyddogaeth | Cefnogol i newid<br><br>-if +if | Rheswm dros wrthsefyll newid | Strategaeth ar gyfer delio â gwrthwynebiad | Gweithred sydd ei hangen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |